Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights Commission

Y gweithle

Pwy ydych chi'n ei weld?

Byw gyda'n gilydd yng Nghymru

Canfyddiadau allweddol

- Ceir teimlad cryf **nad** yw cael eich trin yn annheg yn y gwaith am eich bod yn fenyw yn rhywbeth sy'n 'perthyn i'r gorffennol'.
- Mae cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru o blaid yr hawl i weithio ar ôl yr oedran ymddeol swyddogol.
- Awgryma'r dystiolaeth fod tipyn o ffordd i fynd cyn y bydd cefnogaeth gyffredinol yng Nghymru i ymyrryd ar ffurf gweithredu cadarnhaol.
- Roedd oedolion yng Nghymru wedi'u rhannu'n gyfartal o ran eu barn ar yr iaith Gymraeg a recriwtio i swyddi.

Y gweithle

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canfyddiadau cyfres o ddatganiadau ynglŷn â'r gweithle o ran materion gweithredu cadarnhaol, rhyw ac oedran yn ogystal â'r iaith Gymraeg. Cafodd y cwestiynau hyn eu cynnwys yn yr arolwg o agweddau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru.

Materion o ran rhywedd yn y gweithle

Cytunodd y mwyafrif llethol 'y dylai tadau fod yn gallu cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith pan fydd eu plant yn sâl yn yr un modd â mamau'. Cytunodd 90 y cant o oedolion yng Nghymru (anghytunodd 72 y cant yn gryf) a dim ond 7 y cant a anghytunodd. Gwelwyd canlyniadau tebyg yn Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban (cytunodd 85 y cant, anghytunodd 9 y cant).

Mae'n werth nodi nad oedd gwahaniaeth sylweddol o ran cytundeb yn ôl rhyw, ond roedd oedran yn effeithio ar ymatebion. Roedd oedolion iau (96 y cant) yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad na phobl 55-64 oed (85 y cant) na'r rhai 65 oed neu fwy (76 y cant).

Roedd y rhai a oedd yn gweithio neu nad oeddent yn gweithio yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad na'r rhai a oedd wedi ymddeol (95 y cant a 94 y cant o gymharu â 78 y cant yn y drefn honno).

Roedd aelodau o gartrefi â phlant yn fwy tebygol o gytuno na'r rhai heb blant. Cytunodd cyfran uchel iawn (96 y cant) o'r rhai mewn pâr â phlant neu a oedd mewn cartrefi sengl â'r datganiad o gymharu ag 87 y cant o gartrefi heb blant.

Roedd oedolion nad oeddent yn wyn ychydig yn fwy tebygol o gytuno nag oedolion gwyn (96 y cant o gymharu â 90 y cant).

Nid oedd fawr o amrywiad o ran cytuno yn ôl gradd gymdeithasol er bod oedolion DE[1] yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad na'r cyfartaledd. Gweler y tabl isod (8.1).

[1] Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft neu sy'n cael budd-daliadau/sy'n ddi-waith

Tabl 8.1 Cytunodd y mwyafrif llethol 'y dylai tadau fod yn gallu cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith pan fydd eu plant yn sâl yn yr un modd â mamau' yn ôl is-grŵp

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Cytuno (yn gryf neu'n dueddol o gytuno) (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**90**
Dynion	*744*	*768*	89
Menywod	*845*	*821*	91
Oedran: 16-34	*385*	*413*	97
35-54	*598*	*581*	96
55-64	*262*	*248*	85
65+	*344*	*347*	76
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1438*	*1555*	90
Arall	*151*	*34*	96
Yn gweithio	*899*	*876*	95
Wedi ymddeol	*428*	*432*	78
Ddim yn gweithio	262	*281*	94
Pâr â phlant	*404*	*392*	96
Pâr heb blant	*542*	*524*	87
Sengl â phlant	*115*	*126*	96
Sengl heb blant	*522*	*541*	87
AB[2]	*382*	*376*	91
C1[3]	*533*	*538*	93
C2[4]	*242*	*241*	90
DE	*428*	*431*	86

[2] Cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi rheoli/gweinyddol/proffesiynol uwch a chanolraddol
[3] Cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi goruchwylio, clercol, is-reoli/gweinyddol/proffesiynol
[4] Gweithwyr llaw crefftus

Mae'r canfyddiadau hyn yn galonogol ac yn rhoi tystiolaeth bellach am awydd am amodau cyflogaeth tecach i ddynion a menywod mewn perthynas â gofal plant[5]. Fodd bynnag, credir bod gwahaniaethu ar sail rhyw yn y gweithle yn bodoli o hyd. Dim ond pedwar o bob deg o oedolion yng Nghymru (42 y cant) a gytunodd fod 'cael eich trin yn annheg yn y gwaith am eich bod yn fenyw yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol', tra anghytunodd hanner (49 y cant).

Yn yr achos hwn, roedd lefelau cytundeb yn amrywio rhwng dynion a menywod. Roedd dynion yn fwy tebygol o gytuno (46 y cant) â'r datganiad na menywod (39 y cant). Dengys dadansoddiad o oedran fod pobl 16-34 oed yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad nag oedolion hŷn - cytunodd 49 y cant o gymharu â 41 y cant neu lai mewn grwpiau oedran eraill.

Mae'n werth nodi mai menywod iau a fu'n gyfrifol am y gwahaniaeth hwn: Cytunodd 47 y cant o fenywod 16-34 oed fod cael eich trin yn annheg ar sail rhyw yn rhywbeth a oedd yn perthyn i'r gorffennol. Roedd hyn yn cymharu â 36 y cant o bobl 35-54 oed a 30 y cant o bobl 55-64 oed. Efallai fod y canfyddiadau yn dystiolaeth o newidiadau cadarnhaol yn y gweithle yn ôl canfyddiad aelodau mwy newydd o'r gweithlu. Neu efallai eu bod yn adlewyrchu menywod yn eu tridegau ac yn hŷn sydd wedi profi neu wedi gweld gwahaniaethu yn nes ymlaen yn eu gyrfaoedd.

Roedd y rhai yng ngradd gymdeithasol AB yn llawer llai tebygol o gytuno â'r datganiad na'r rhai yng ngraddau cymdeithasol is: cytunodd 33 y cant o oedolion AB â'r datganiad o gymharu â 42 y cant o oedolion C1, 51 y cant o oedolion C2 a 46 y cant o oedolion DE.

Roedd y rhai a adawodd addysg yn 19 oed neu'n hŷn (34 y cant) yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad nag oedolion eraill (44 y cant neu fwy, ac mae'n werth nodi bron hanner (49 y cant) o'r rhai sy'n parhau i astudio).

Nid oedd gwahaniaethau o ran lefelau cytundeb yn ôl ethnigrwydd, statws gwaith neu aelodaeth y cartref.

[5] Gweler hefyd y drafodaeth am agweddau tadau mewn perthynas â chyfnod tadolaeth: Thompson et al, 2005, *Dads and their babies: leave arrangements in the first year*, Cyfres Papurau Gwaith y Comisiwn Cyfle Cyfartal Rhif 37

Tabl 8.2 Cytuno â'r datganiad 'bod cael eich trin yn annheg yn y gwaith am eich bod yn fenyw yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol' yn ôl is-grŵp

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Cytuno (yn gryf neu'n dueddol o gytuno) (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**42**
Dynion	*744*	*768*	46
Menywod	*845*	*821*	39
Oedran: 16-34	*385*	*413*	49
35-54	*598*	*581*	40
55-64	*262*	*248*	39
65+	*344*	*347*	41
Dynion 16-34	*172*	*193*	50
Dynion 35-54	*297*	*298*	43
Dynion 55-64	*128*	*125*	49
Dynion 65+	*147*	*153*	42
Menywod 16-34	*213*	*220*	47
Menywod 35-54	*301*	*284*	36
Menywod 55-64	*134*	*123*	30
Menywod 65+	*197*	*194*	40
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1438*	*1555*	42
Arall	*151*	*34*	48
Yn gweithio	*899*	*876*	44
Wedi ymddeol	*428*	*432*	40
Ddim yn gweithio	262	*281*	40
Pâr â phlant	*404*	*392*	42
Pâr, heb blant	*542*	*524*	39
Sengl, â phlant	*115*	*126*	47
Sengl, heb blant	*522*	*541*	44
AB	*382*	*376*	33
C1	*533*	*538*	42
C2	*242*	*241*	51
DE	*428*	*431*	46

Materion o ran oedran yn y gweithle

Roedd y mwyafrif llethol o oedolion yng Nghymru (94 y cant) yn cefnogi'r syniad y dylai pobl fod yn gallu parhau i weithio ar ôl oedran swyddogol ymddeol os dymunant. Dim ond 4 y cant a anghytunodd. (Fodd bynnag, mae'n ddiddorol bod canfyddiadau ymchwil o'r arolwg hwn, yn y ddogfen 'Cysylltiadau Bob Dydd' yn dangos bod 40 y cant o oedolion yng Nghymru yn teimlo bod pobl 70 oed neu'n hŷn yn anaddas i fod yn athro ysgol gynradd.)

Nid oedd gwahaniaethau sylweddol o ran lefelau cytundeb yn ôl rhyw, oedran neu statws gwaith. Roedd lefelau cytundeb yn debyg hefyd ar y cyfan rhwng graddau cymdeithasol gan mai 92 y cant oedd y lefel isaf o gytundeb a hynny ymhlith oedolion DE.

Tabl 8.3 Cytuno â'r datganiad 'y dylai fod gan bobl yr hawl i barhau i weithio ar ôl 65 oed os dymunant' yn ôl is-grŵp

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Cytuno (yn gryf neu'n dueddol o gytuno) (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**94**
Dynion	*744*	*768*	94
Menywod	*845*	*821*	95
Oedran: 16-34	*385*	*413*	95
35-54	*598*	*581*	95
55-64	*262*	*248*	92
65+	*344*	*347*	93
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1438*	*1555*	94
Arall	*151*	*34*	89
Yn gweithio	*899*	*876*	95
Wedi ymddeol	*428*	*432*	93
Ddim yn gweithio	262	*281*	95
Pâr â phlant	*404*	*392*	95
Pâr, heb blant	*542*	*524*	94
Sengl, â phlant	*115*	*126*	97
Sengl, heb blant	*522*	*541*	93
AB	*382*	*376*	95

C1	*533*	*538*	96
C2	*242*	*241*	94
DE	*428*	*431*	92

Holwyd ynglŷn â chanfyddiadau pobl ifanc, ac yn benodol barn oedolion yng Nghymru ar isafswm cyflog is i weithwyr 21 oed neu'n iau[6].

Cymysg fu'r farn ar y mater hwn. Credai tau thraean o oedolion yng Nghymru (35 y cant) fod isafswm cyflog is i weithwyr iau yn deg neu'n deg iawn tra credai ychydig dros hanner (55 y cant) ei bod yn annheg neu'n annheg iawn.

Ffigur 8.1 Tegwch isafswm cyflog is i weithwyr 21 oed neu'n iau



Sylfaen: Pob ymatebwr (1,589 heb eu pwysoli; 1,589 wedi'u pwysoli). Ni ddangosir 'ddim yn gwybod' (1%)

Nid oedd llawer o wahaniaethau yn ôl rhyw, er bod dynion ychydig yn fwy tebygol o gredu bod y sefyllfa yn *deg iawn* na menywod (10 y cant o gymharu â 6 y cant yn y drefn honno).

Roedd pobl dros 65 oed yn llawer mwy tebygol o gredu bod y sefyllfa'n deg na phobl 16-34 oed a 35-54 oed (43 y cant o gymharu â 31 y cant a 33 y cant yn y drefn honno). Roedd menywod 16-34 oed yn llawer *llai tebygol* o gredu bod talu isafswm cyflog is i weithwyr iau yn deg na menywod ym mhob grŵp oedran arall (24 y cant o gymharu â 34 y cant neu fwy mewn grwpiau oedran eraill).

[6] Gofynnwyd i ymatebwyr: "Caniateir i gyflogwyr dalu gweithwyr 21 oed neu'n iau gyfradd is o dâl na gweithwyr hŷn. Mae rhai pobl yn credu bod hyn yn deg, tra bod eraill yn credu ei bod yn annheg. Beth amdanoch chi - beth yw'ch barn chi...? [graddfa: yn deg iawn i annheg iawn]

Dangosodd dadansoddiad yn ôl gradd gymdeithasol bod oedolion AB yn fwy tebygol o gredu bod isafswm cyflog is i bobl ifanc yn deg na phobl ym mhob gradd gymdeithasol arall (42 y cant o gymharu â 33 y cant yng ngraddau cymdeithasol eraill).

Roedd y rhai a orffennodd eu haddysg yn 19 neu'n hŷn hefyd yn fwy tebygol o gytuno bod y sefyllfa gyfredol yn deg (42 y cant o gymharu â 34 y cant neu lai ymhlith y rhai a orffennodd eu haddysg cyn 19 neu a oedd yn parhau i fod mewn addysg).

Roedd gwahaniaethau rhanbarthol hefyd i'w gweld. Roedd oedolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (41 y cant) a Gogledd Cymru (42 y cant) yn fwy tebygol o gefnogi lefel isafswm cyflog cyfredol i bobl iau na phobl yn Nwyrain De Cymru (29 y cant) a Gorllewin De Cymru (29 y cant).

Tabl 8.4 Tegwch isafswm cyflog is i weithwyr 21 oed neu'n iau yn ôl is-grŵp

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Teg iawn neu deg (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**35**
Dynion	*744*	*768*	37
Menywod	*845*	*821*	33
Oedran: 16-34	*385*	*413*	31
35-54	*598*	*581*	33
55-64	*262*	*248*	36
65+	*344*	*347*	43
Gwyn	*1438*	*1555*	35
Prydeinig/Cymreig			
Arall	*151*	*34*	31
AB	*382*	*376*	42
C1	*533*	*538*	33
C2	*242*	*241*	33
DE	*428*	*431*	33
Oedran yn gorffen addysg	***78*	*92*	24
- parhau i fod mewn addysg			
- 16 neu'n iau	*638*	*651*	34

-17 i 18	*327*	*334*	31
- 19+	*544*	*511*	42
Canolbarth a Gorllewin Cymru	*290*	*292*	41
Gogledd Cymru	*336*	*344*	42
Canol De Cymru	*366*	*348*	34
Dwyrain De Cymru	*324*	*327*	29
Gorllewin De Cymru	*273*	*278*	29

Noder: ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100)

Yr iaith Gymraeg a recriwtio yn y gweithle

Dymunodd y Comisiwn ddeall a oedd pobl yn credu bod siaradwyr Cymraeg yn cael mantais neu o dan anfantais mewn sefyllfa recriwtio a'u canfyddiad o degwch hyn.

I'r ddau ddatganiad roedd gwahaniaeth barn gyda chyfrannau tebyg (tua phedwar o bob deg) yn cytuno ac yn anghytuno â phob datganiad, fel y dangosir yn ffigur 8.2).

Ffigur 8.2 Yr iaith Gymraeg a recriwtio yn y gweithle



Sylfaen: Pob ymatebwr (1,589 heb eu pwysoli; 1,589 wedi'u pwysoli)

Cafwyd bod iaith yr aelwyd, ynghyd â hunaniaeth, yn dylanwadu ar ymatebion pobl. Roedd siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy tebygol o gytuno 'y dylai cyflogwr ffafrio'r rhai sy'n siarad Cymraeg a Saesneg wrth lenwi swyddi' na siaradwyr Saesneg (76 y cant o gymharu â 38 y cant).

Pan ofynnwyd a oedd oedolion yn credu bod 'siaradwyr Cymraeg yn cael mantais annheg wrth gael swyddi' roedd y gwrthwyneb yn wir. Roedd siaradwyr Saesneg yn fwy tebygol (45 y cant) o gytuno bod siaradwyr Cymraeg yn cael mantais annheg na siaradwyr Cymraeg (29 y cant).

Roedd pobl a oedd ystyried eu hunain yn Gymry yn llawer mwy tebygol o gytuno 'y dylai cyflogwyr ffafrio'r rhai sy'n siarad Cymraeg a Saesneg' na'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn Saeson neu'n Brydeinwyr (48 y cant o gymharu â 32 y cant a 34 y cant yn y drefn honno). Ac eto, roedd yr un grwpiau yn llawer llai tebygol o gytuno bod 'siaradwyr Cymraeg yn cael mantais annheg wrth gael swyddi' (39 y cant o gymharu â 51 y cant a 51 y cant yn y drefn honno).

Roedd pobl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn llawer mwy tebygol o gytuno 'y dylai cyflogwr ffafrio'r rhai sy'n siarad Cymraeg a Saesneg

wrth lenwi swyddi' na phobl mewn rhanbarthau eraill (52 y cant o gymharu â 44 y cant neu lai yn y drefn honno). Mae hyn yn ymwneud â dosbarthiad oedolion yr oedd Cymraeg yn famiaith neu'n brif iaith iddynt - roedd 36 y cant yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Nid oedd gradd gymdeithasol yn cael fawr effaith ar bobl yn credu 'bod siaradwyr Cymraeg yn cael mantais annheg wrth gael swyddi'. Fodd bynnag, roedd oedolion AB yn llawer llai tebygol o gytuno 'y dylai cyflogwyr ffafrio'r rhai sy'n siarad Cymraeg a Saesneg' nag oedolion C2 a DE (36 y cant o gymharu â 45 y cant a 46 y cant yn y drefn honno). Adlewyrchwyd y patrwm hwn mewn statws gwaith ac roedd yn gysylltiedig ag ef: roedd y rhai nad oeddent yn gweithio yn *fwy* tebygol o gytuno â'r datganiad na'r rhai a oedd mewn cyflogaeth (47 y cant o gymharu â 40 y cant yn y drefn honno).

Roedd dynion yn fwy tebygol (47 y cant) o deimlo bod 'siaradwyr Cymraeg yn cael mantais annheg wrth gael swyddi' na menywod (41 y cant). Roedd y rhai dros 65 oed yn fwy tebygol o gytuno bod siaradwyr Cymraeg yn cael mantais annheg na phobl 54 oed neu'n iau (50 y cant o gymharu â 43 y cant yn y drefn honno). Dylid nodi bod oedolion hŷn yn llai tebygol o siarad Cymraeg ar yr aelwyd nag oedolion iau.

Fodd bynnag, nid oedd oedran na rhyw, yn cael effaith gyson ar lefelau cytuno â'r datganiad y dylai cyflogwyr ffafrio'r rhai sy'n siarad Cymraeg a Saesneg wrth recriwtio.

Gweithredu cadarnhaol yn y gweithle

Ymchwiliwyd i weithredu cadarnhaol yn y gweithle drwy ddau senario. Roedd y cyntaf yn disgrifio cwmni lle roedd llai o fenywod yn dal uwch swyddi na dynion. Roedd yr ail yn disgrifio cwmni lle roedd ychydig iawn o bobl Dduon ac Asiaidd yn dal uwch swyddi. Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn deg neu'n annheg i'r grŵp 'lleiafrifol' gael cyfleoedd ychwanegol i gael hyfforddiant a chymwysterau.

Ym mhob achos roedd mwyafrif bach yn teimlo bod cynnig cyfleoedd hyfforddi o'r fath i'r rhai a oedd wedi'u tangynrychioli mewn uwch swyddi yn deg; teimlai 55 y cant y ffordd honno yn achos menywod, teimlai 54 y cant ei bod yn deg yn achos unigolion Duon ac Asiaidd. Gwelwyd canlyniadau tebyg ar y cyfan yn Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban [7]. Fodd bynnag, yng Nghymru roedd cyfradd ychydig yn llai o oedolion yn teimlo bod gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â

[7] Op cit. Noder y dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ddau arolwg am fod dulliau gwahanol wedi eu defnyddio

menywod yn deg (55 y cant o gymharu â 63 y cant yn Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol).

Ffigur 8.3 Tegwch senarios o weithredu cadarnhaol



Sylfaen: Pob ymatebwr (1,589 heb eu pwysoli; 1,589 wedi'u pwysoli)

Yn ôl y dadansoddiad o'r rhai a oedd yn llai tebygol o gredu bod gweithredu cadarnhaol yn deg:

Roedd dynion yn fwy tebygol o gredu ei bod yn annheg na menywod. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn achos gweithredu cadarnhaol i fenywod mewn uwch swyddi: credai 49 y cant o ddynion bod hyn yn deg o gymharu â 61 y cant o fenywod).

Roedd pobl 16-34 oed yn llai tebygol o gredu bod y senarios yn deg na phobl dros 65 oed. Credai bron hanner (49 y cant) o bobl 16-34 oed bod gweithredu cadarnhaol i bobl Dduon ac Asiaidd mewn uwch swyddi yn deg. Ond cytunodd 62 y cant o bobl dros 65 oed ei bod yn deg.

Mae p'un a oedd rhywun yn gweithio ai peidio yn cael effaith ar yr ymatebion. O'r rhai a oedd yn gweithio credai 50 y cant fod gweithredu cadarnhaol i fenywod mewn uwch swyddi yn deg o gymharu â 61 y cant neu fwy o'r rhai nad oeddent mewn cyflogaeth/wedi ymddeol.

Gwelwyd gwahaniaeth yn ôl gradd gymdeithasol hefyd. Roedd llai o bobl yng ngraddau cymdeithasol uwch yn credu ei bod yn deg - credai 53 y cant neu lai o bobl yng ngraddau cymdeithasol AB, C1, C2 fod gweithredu cadarnhaol i fenywod yn deg o gymharu â 62 y cant o unigolion DE.

Credai ychydig dros hanner (53 y cant) o unigolion gwyn Prydeinig/Cymreig fod gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â phobl Dduon ac Asiaidd mewn uwch swyddi yn deg, o gymharu â 67 y cant o oedolion nad oeddent yn wyn.

Roedd y rhai a adawodd addysg lawn amser yn 19 oed, neu'n hŷn (49 y cant) yn llai tebygol o gredu bod gweithredu cadarnhaol yn achos menywod mewn uwch swyddi yn deg. Ond eto, ym marn 58 y cant o bobl a adawodd addysg cyn iddynt fod yn 19 oed roedd y mater yn un teg.

Tabl 8.3 Tegwch senarios o weithredu cadarnhaol yn ôl is-grŵp

			Mae gweithredu cadarnhaol yn deg yn bendant neu'n fwy na thebyg...	
	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n =*	*...i fenywod mewn uwch swyddi (y cant)*	*…i bobl Dduon/Asiaidd mewn uwch swyddi (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**55**	**54**
Dynion	*744*	*768*	49	47
Menywod	*845*	*821*	61	60
16-34	*385*	*413*	49	49
35-54	*598*	*581*	55	52
55-64	*262*	*248*	58	56
65+	*344*	*347*	62	62
Gwyn Prydeinig/ Cymreig	*1438*	*1555*	55	53
Arall	*151*	*34*	64	67
Yn gweithio	*899*	*876*	50	48
Wedi ymddeol	*428*	*432*	62	62

Ddim yn gweithio	262	*281*	61	60
AB	*382*	*376*	52	50
C1	*533*	*538*	53	51
C2	*242*	*241*	52	50
DE	*428*	*431*	62	62
Oedran yn gorffen addysg - parhau i fod mewn addysg	***78*	*92*	53	55
- 16 neu'n iau	*638*	*651*	60	58
-17 i 18	*327*	*334*	58	55
- 19+	*544*	*511*	49	48

Noder: ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100)

Gellir crynhoi nodweddion y rhai a oedd yn llai tebygol o gredu bod gweithredu cadarnhaol yn deg fel a ganlyn: fel arfer yn perthyn i'r graddau cymdeithasol uwch mewn cyflogaeth, ac yn fwy tebygol o fod wedi gorffen addysg lawn amser yn 19 oed neu'n hŷn. Mewn gwrthwynebiad â hynny, mae'r nodweddion a welir fel arfer ymhlith y rhai sy'n dueddol o fod ag agweddau gwahaniaethol wedi'u crynhoi fel a ganlyn: fel arfer yn hŷn a'r rhai y mae eu cyrhaeddiad addysgol yn is (mae hyn yn gysylltiedig ag oedran gorffen addysg a gradd gymdeithasol)[8].

Dengys hyn fod canran o'r rhai y bydden fel arfer yn disgwyl bod o blaid mesurau gwrthwahaniaethol yn gwrthwynebu gweithredu cadarnhaol. Ai'r rheswm dros hyn yw y gallant uniaethu'n haws â'r lleoliad cyflogaeth a chanfod ymyrryd o'r fath yn annheg pan allai effeithio ar eu gyrfaoedd eu hunain? Neu, fel yr awgrymwyd gan Bromley et al[9], efallai fod y rhai sydd eisoes wedi ennill cymwysterau neu wedi cael uwch swyddi yn amharod i weld eraill yn cael help i gael yr un manteision.

Awgryma'r canfyddiadau bod tipyn o ffordd i fynd cyn y bydd cefnogaeth gyffredinol hyd yn oed ymhlith yr aelodau mwy rhyddfrydig o boblogaeth Cymru, i ymyrryd ar ffurf gweithredu cadarnhaol.

[8] Er enghraifft, gweler Bromley, C. et al (2007), op cit
[9] ibid

Crynodeb

Dengys y canfyddiadau mai cymysg yw agweddau mewn perthynas â materion rhyw, oedran a recriwtio yn y gweithle. Er bod cytundeb unfrydol ynglŷn â rhai materion, mae eraill yn ysgogi ymateb mwy amrywiol. Roedd oedolion yng Nghymru wedi'u rhannu'n gyfartal o ran eu barn ar yr iaith Gymraeg a recriwtio i swyddi.

Credid bod gweithredu cadarnhaol ar ffurf cymwysterau a hyfforddiant ychwanegol i fenywod a phobl Dduon ac Asiaidd sydd wedi'u tangynrychioli mewn uwch swyddi yn deg gan leiafrif bach o oedolion yng Nghymru. Teimlai cyfrannau sylweddol fod ymyrryd o'r fath yn annheg. Dengys y canfyddiadau bod tipyn o ffordd i fynd cyn bod hyd yn oed yr aelodau mwy rhyddfrydig o'r cyhoedd yng Nghymru wedi'u llawn argyhoeddi gan ddulliau o'r fath o sicrhau cyfle cyfartal yn y gweithle.

Nodiadau

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwil ar gael ar dudalennau'r Comisiwn yng Nghymru ar ein gwefan yn:

www.equalityhumanrights.com

Ynglŷn â'r arolwg o agweddau

Comisiynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru GfK NOP i ymgymryd ag ymchwil i agweddau pobl tuag at wahaniaethu, hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn ceisio archwilio agweddau pobl tuag at wahaniaethu o ran rhyw, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, dynion hoyw a lesbiaid, materion o ran oedran, crefydd a ffydd a hefyd y Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi mesur sylfaenol o agweddau y gellid eu mesur eto yn y dyfodol.

Roedd y sampl yn cynnwys 1,589 o ymatebwyr. Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn. Cafodd pob ymatebwr y dewis o gwblhau'r arolwg yn Gymraeg. Ymdriniwyd â materion o ran mynediad drwy gynnig y cyfle i ddefnyddio gwasanaeth TypeTalk i'r rhai â nam ar y clyw. I'r rhai a gafodd anhawster i gyfathrebu yn Saesneg cynigiwyd y cyfle i ddefnyddio Llinell Iaith i gyfieithu'r cyfweliad.

Roedd y dull samplu a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfuno dewis rhifau drwy Ddeialu Digidau ar Hap (RDD) a defnyddio cwotâu i reoli proffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Pennwyd cwotâu yn ôl rhanbarth yng Nghymru (pum rhanbarth), yn ôl rhyw ynghyd â statws gwaith, yn ôl band oedran ac yn ôl tarddiad ethnig yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig a gafwyd o Gyfrifiad 2001. Pennwyd y rhain i sicrhau y byddai'r sampl yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn ôl y ffactorau hyn.

Hybwyd cyfweliadau mewn ardaloedd lle roedd cyfran uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth.

Cymharu â'r Alban a Phrydain Fawr

Cymharwyd y canfyddiadau ag Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban a'r archwiliad o ganfyddiadau a gynhaliwyd gan GfK NOP. Dylid nodi mai dim ond cymharu'n fras y gellir ei wneud am fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio yn y ddau arolwg hyn. Felly, mae'n rhaid trin unrhyw debygolrwydd neu wahaniaeth rhwng canfyddiadau'r arolygon hyn a chanlyniadau arolwg y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru fel rhai dangosol yn hytrach na rhai absoliwt.